NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF
yn Neuadd y Pentref

Tachwedd 8:
Y Parchg. Aled Edwards
Llywydd: Bethan Herbert
Taflen: Gwilym Huws

Tachwedd 15:
Emlyn Davies
Llywydd: Ann Davies
Taflen: Emlyn Davies

Tachwedd 22:
Allan James
Llywydd: Carwyn Lloyd-Jones
Taflen: Gwilym Huws

Tachwedd 29:
Y Parchg. Gethin Rhys
Llywydd: Helen Prosser
Taflen: Ros Evans

CASGLIAD BWYD A DILLAD
Bydd y casgliadau bwyd ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun yn parhau tra bo'r capel yn cael ei atgyweirio a bydd y bocs casglu yng nghefn Neuadd y Pentref bob bore Sul. Bydd y casgliad dillad yn ail-ddechrau yn y flwyddyn newydd.

Y FFOADURIAID
Heddiw yw'r cyfle olaf i ddychwelyd amlenni casgliad Cymorth Cristnogol i helpu ffoaduriaid yn Ewrop ac Asia. Diolch i chi i gyd am eich ymateb a'ch cefnogaeth.

CYLCH CADWGAN
Nos Fercher 18 Tachwedd
8.00pm. yn Y Ganolfan
Dr WALTER BROOKS
'Patagonia 150'

Y GWEITHGOR GWEINIDOGAETHU
Heddiw am 3:00 p.m.

CYFARFOD CYFFREDINOL
Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fore Sul, Tachwedd 22ain, yn dilyn yr oedfa.

ENWEBU CYFARWYDDWYR
Daeth yn amser unwaith eto i enwebu aelodau newydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Y dyddiad cau yw dydd Sul, Tachwedd 8fed, ac mae'r ffurflenni ar gael gan Gwilym Huws, yr Ysgrifennydd.

ANGEN HELP
Gyda llawenydd mawr yr ydym yn cyhoeddi fod Gwerfyl Morse wedi cytuno i olygu rhifyn mis Ionawr o *Tafod y Tab*. Byddwn yn apelio am ddeunydd ar ei chyfer yn nes at ddiwedd y flwyddyn.
Ond rydym yn dal i chwilio am ragor o bobl i helpu gyda'r daflen a'r sgriniau yn y flwyddyn newydd. Os medrwch helpu, mynnwch air gydag Emlyn Davies ar 02920 891344 neu emlyn.davies@which.net

MERCHED Y TABERNACL
Bore Gwener, Tachwedd13eg

Cwrdd am goffi yn yr Amgueddfa am 10.30 ac yna am 11 byddwn yn cael eglurhad ar rai o'r peintiadau yng nghwmni Ann Saer

Croeso i bawb

Y TWMIAID BACH - HEDDIW!
Cofiwch am y Twmiaid Bach, i blant blwyddyn 5 ac uwch, bob yn ail nos Sul am 5 o'r gloch yn Y Ganolfan. Bydd y cyfarfod nesaf heno, ac yna Tachwedd 15 a 29, ac wedyn ar Ragfyr 13.

YR APÊL ARIANNOL AR GYFER YR ADEILADAU
Mae'n bleser cael cyhoeddi bod yr ymateb i'r apêl wedi bod yn ardderchog hyd yn hyn. Codwyd dros £24,000 ymhlith yr aelodau, a byddwn yn medru hawlio Cymorth Rhodd ar y rhan fwyaf o'r cyfraniadau hyn. Diolch i bawb am eu haelioni. Os nad ydych wedi cyfrannu eto, dyw hi ddim yn rhy hwyr! Bydd Gwilym neu Keith yn falch o dderbyn eich rhoddion.